

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Branwen Davies



Crynodeb:

Nofel am Beca - sy'n dysgu i ymdopi gyda'i harddegau a gwerthfawrogi ei chorff, ei ffrindiau a'i thalentau.

'Yyyyy, ma 'da Beca stretch marks!'

Mae corff Beca yn destun sbort i nifer o'i chyfoedion yn yr ysgol - yn enwedig i Siwan. Mae Beca'n gwybod yn well nag unrhyw un ei bod hi'n lletchwith a thrwsogl, ond yr hyn nad yw'r mwyafrif o bobol yn gwybod yw bod corff Beca yn wahanol iawn mewn pwll nofio. Yn y dŵr mae hi'n

chwim, yn gryf ac yn osgieiddig.

Mae Beca'n hapus i gadw ei chyfrinach a chadw draw oddi wrth Siwan, ond pan mae'r ddau fyd yn gwrthdaro, does dim modd i Beca guddio rhagor, ac mae ei chyfrinach yn cael ei ddatgelu mewn ffordd greulon ac annheg.

Ydy Beca'n gallu achub ei chariad at nofio a'i ffydd ynddi hi ei hun?

Nofel i'r ardegwyr cynnar sy'n trafod tyfu i fyny mewn byd sy'n gallu bod yn anodd wrth i'r corff a'r emosiynau newid.

Dywedwch ychydig am eich llyfr newydd ...

Llyfr am dyfu lan, yr ardegwau, ffrindiau, perthnasau yn yr ysgol, a chyrrff pobl ifanc yn eu harddegau.

Oedd unrhyw heriau arbennig wrth baratoi'r llyfr?

Dim wir ond mi roeddwn i yn poeni am adlewyrchu bywyd pobl ifanc yn eu harddegau heddiw yn gywir - mae'n amser hir ers i fi fod yn fy ardegwau ac mae fy mhlant i yn iau na hynny felly does gennai ddim profiad uniongyrchol o'r teen cyfoes! Mae cymaint wedi newid ers fy amser i yn yr ysgol - y rhyngwyd a'r cyfryngau cymdeithasol yn bennaf wrth gwrs - ond yn y bôn dwi'n meddwl bod y teimladau craidd, yr emosiynau, yr hyn sy'n gwneud ni'n drist, yr hyn sy'n gwneud ni boeni, a'r hyn sy'n gwneud ni chwerthin, yn aros yr un peth o un cenhedlaeth i'r llall. Dwi'n gobeitho 'ta be!

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau er mwyn annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

Dyw e ddim yn rhywdd dwi ddim yn meddwl - ac fel mam i blant ifanc dwi'n credu bod ffactorau fel y pandemig wedi effeithio ar bob math o bethau sy'n ymwneud â hyn, gan gynnwys safon addysgiadol plant, dibyniaeth ar sgrin, trefn y cartref (y routine dyddiol), y rhaniad rhwng gwaith a chartref i riant, ayyb. Un peth sy'n bositif yw faint mwy o ddewis o lyfrau sydd ar gael dyddiau yma - mae rhywbeth at flas pawb (er, weithiau efallai bod gormod o ddewis yn gwneud hi'n anodd gwybod lle i ddechrau!).

Dwi'n credu uwchben dim bod angen cydnabod bod pob un plentyn yn wahanol a does dim ots pa 'safon' neu fath o lyfrau mae nhw'n ddarllen - er enghraifft, mae fy mab yn un am ffeithiau ac yn gweld y byd mewn ffordd hollol rhesymegol, felly dyw e wir ddim yn gweld y pwnt o straeon y dychymyg. Mae'n ferch ar y llaw arall yn fwndel o dychymyg, ddydd a nos! I ni gyd yn wahanol ac ry'n ni gyd yn cael pleser o bethau gwahanol ac yn dod at bethau, fel llyfrau, ar adegau gwahanol.

Cyhoeddwyd *Sblash!* yn Hydref 2022 gan Y Lolfa (Twitter @YLolfa)

Bywgraffiad

Mae Branwen Davies yn ferch o Ddyffryn Teifi ac mae hi'n gweithio ym myd y cyfryngau, ar raglenni radio a theledu ffeithiol yn bennaf. Mae ganddi ddau o blant, gormod o geffylau ac un ci, a'r rhain sy'n mynd â'i hamser rhydd, ei hegri a'i harian!

Y Lolfa

www.ylolfa.com

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru